OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3010 (Cy.261)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007

Gwnaed - - - -	*22 Hydref 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*23 Hydref 2007*
Yn dod i rym - -	*22 Hydref 2007*

Å chymeradwyaeth y Trysorlys, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 32(3) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt (**2**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. O ran y Gorchymyn hwn—

(a) Ei enw yw Gorchymyn y Tafod Glas (Cymru) (Digolledu) 2007;

(b) fe ddaw i rym ar 22 Hydref 2007; ac

(c) mae'n gymwys o ran Cymru.

Digolledu

2.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn achosi i unrhyw anifail gael ei gigydda o dan adran 32 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 fel y'i cymhwysir i'r tafod glas gan erthygl 13 o Orchymyn y Tafod Glas 2003(**3**).

(2) Y digolledi ad sy'n daladwy gan Weinidogion Cymru o ran anifail yw gwerth yr anifail ar y farchnad yn union cyn iddo gael ei gigydda pe na bai wedi ei effeithio gan y tafod glas, pe na bai amheuaeth ei fod wedi ei effeithio gan y tafod glas neu pe na bai wedi bod yn agored i gael ei heintio gan y tafod glas.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "anifail" yw anifail sy'n cnoi cil.

(**1**) 1981 p. 22.

(**2**) Swyddogaethau a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 2003/326 (Cy.47).